

PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD IAU, 20 HYDREF 2016

YN BRESENNOL: Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
R. H. Wyn Williams (Is-Gadeirydd)

Yn bresennol: Y Cynghorwyr, Stephen Churchman Jean Forsyth, Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Michael Sol Owen, W Gareth Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, John Wyn Williams a R.H. Wyn Williams.

Hefyd yn Bresennol: Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Selwyn Griffiths a Brian Jones

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 o Fedi 2016 fel rhai cywir.

5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

6. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH RHEOLEIDDIO

Adroddodd y Cadeirydd bod pum cais wedi eu derbyn am y swydd a bod hyn yn galonogol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau cynnal canolfan asesu, cadarnhaodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol nad oedd costau'r Ganolfan asesu yn cael eu cyfrifo ar sail cost y pen a nododd y Prif Weithredwr bod cynnal canolfan asesu yn greiddiol i broses penodi Pennaethiaid er mwyn sicrhau ansawdd a derbyn barn annibynnol. Byddai cost dod i benderfyniad anghywir lawer uwch i drigolion Gwynedd.

Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddu.

PENDERFYNWYD RHOI PEDWAR YMGEISYDD AR Y RHESTR FER

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cyfweiliadau i'w cynnal Tachwedd 8fed 2016 a chytunwyd i estyn gwahoddiad i'r Aelod Cabinet perthnasol.

CWESTIYNAU AR GYFER Y CYFWELIAD

Dosbarthwyd pum cwestiwn a thestun cyflwyniad ar gyfer y cyfweiliad.

PENDERFYNWYD bod y cwestiynau yn addas.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00 y.h. a daeth i ben am 4.00 y.h.

CADEIRYDD